



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cysgod Y Coed Ltd

**Cartref Preswyl Cysgod Y Coed
Llanilar
Aberystwyth
SY23 4NR**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

25/4/2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Cysgod Y Coed Ltd

Math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Cysgod Y Coed Ltd
Lleoedd cofrestredig	15
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio

Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu derbyn, dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"mae'r staff o'r radd flaenaf yma"*. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu llywio gan gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r rhyngweithio'n gadarnhaol ac yn gyfeillgar, ac mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda. Wrth drafod y gwasanaeth dywedodd gweithiwr wrthym *"fel hyn y dylai fod, mae'n bersonol ac mae gan y trigolion yr hyn sydd ei angen arnyn nhw"*.

Mae'r amgylchedd yn gartrefol ac mae'r bobl yn mwynhau treulio amser yn eu hystafelloedd neu mewn ardaloedd cymunol. Mae cynrychiolwyr y bobl yn gadarnhaol am y gwasanaeth a dywedodd un wrthym *"mae e [aelod o'r teulu] yn hapus iawn yn y cartref a gyda'r staff"*.

Yr unigolyn cyfrifol sy'n rheoli'r gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae'r bobl, aelodau eu teulu a'r staff yn gwerthfawrogi'r unigolyn cyfrifol/rheolwr ac mae ganddynt hyder ynddo.

Llesiant

Mae'r bobl yn gadarnhaol iawn am y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae cynlluniau cyfredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig. Mae'r unigolyn cyfrifol/rheolwr yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i helpu pobl i gadw mor iach â phosibl. Mae'r unigolion yn cael eu parchu, ac mae'r rhyngweithio gyda thîm y staff yn gyfeillgar ac yn hamddenol. Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg, sy'n golygu eu bod yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg neu'r Saesneg fel y mynnant.

Mae trefniadau recriwtio a hyfforddi yn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a chymorth iawn, gan weithwyr gofal dawnus a gwybodus. Mae'r staff yn amddiffyn y bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac yn hollol ymwybodol o'u cyfrifoldebau i leisio pryderon. Mae'r bobl yn gwybod sut i wneud cwyn os oes angen ac mae ganddynt hyder yn yr unigolyn cyfrifol/rheolwr.

Mae'r amgylchedd yn gyfforddus a cheir ardaloedd cymunol gwahanol i'r bobl eu defnyddio i wneud pethau sy'n gwneud iddynt deimlo'n hapus. Gellir llenwi'r ystafelloedd unigol ag eiddo personol a'u gwneud yn gartrefol. Mae'r gerddi yn hygyrch i'r bobl wneud y pethau maen nhw'n eu mwynhau, a'u helpu i gadw mor iach â phosibl.

Mae'r unigolyn cyfrifol/rheolwr yn ymwneud â rhedeg y cartref o ddydd i ddydd, mae'r bobl a'r staff yn siarad ag ef am wella ansawdd y gwasanaeth. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi yn adroddiadau ymweliadau Rheoliad 73 a'r adolygiad ansawdd gofal a gynhelir bob chwe mis.

Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth personol y maent yn ei dderbyn i barhau i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r rhyngweithio'n gynnes ac yn ofalgar, dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"mae'r staff yn wych, yn gymwynasgar iawn ac yn ddymunol"*. Mae cynrychiolwyr y bobl yn gadarnhaol am y gwasanaeth, dywedodd un *"mae'r staff mor gyfeillgar a dymunol, maen nhw'n ardderchog"*. Mae'r gweithwyr gofal brwdfrydig yn adnabod y bobl yn dda, dywedodd un wrthym *"dwi'n gallu rhoi amser i bobl a dwi'n gallu eistedd i lawr a chael sgwrs un-i-un gyda nhw"*. Mae'r rheolwr yn asesu ystod o wybodaeth gan yr unigolyn, ei gynrychiolwyr a gweithwyr proffesiynol allanol, fel nyrsys ardal, deietegwyr a therapyddion galwedigaethol cyn ei dderbyn. Mae gan y gwasanaeth gynlluniau manwl gywir ar gyfer sut y mae'n darparu gofal a chymorth i unigolion. Mae'r rheolwr yn adolygu'r cynlluniau'n rheolaidd gyda'r bobl fel eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac mae'n bwriadu cofnodi hyn yn fanylach. Mae nodiadau dyddiol yn cofnodi'r gofal a'r cymorth a gyflawnwyd a byddant yn cael eu gwella drwy gynnwys rhagor o wybodaeth o safbwynt yr unigolyn. Ceir tystiolaeth dda o weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn ymwneud â'r bobl ac mae hyn wedi'i ddogfennu. Gwnaeth gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a oedd yn ymweld siarad yn gadarnhaol am y gwasanaeth gan ddweud ei fod *"yn brydlon, yn ofalgar ac mae ganddyn nhw wybodaeth wrth law pan mae ei angen arnom ni"*.

Mae staff â chymwysterau priodol yn rhoi meddyginiaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cofnodi pan fydd y bobl yn cymryd eu meddyginiaeth neu'n cofnodi, gan ddefnyddio system godio, pam bod y bobl wedi gwrthod.

Yn ystod y pandemig gwnaeth y bobl gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau drwy ddefnyddio galwadau fideo a ffôn. Caiff ymweliadau yn y gwasanaeth eu cynnal o dan do ac yn yr awyr agored, yn unol ag asesiadau risg unigol.

Mae'r bobl yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn y gwasanaeth ac yn yr ardd, ac maent yn edrych ymlaen at gael mynediad i'r gymuned leol gydag aelodau eu teulu unwaith eto. Mae'r bobl yn dewis ble i dreulio eu hamser ac maent yn mwynhau darllen yn dawel neu gymdeithasu gyda'i gilydd. Dywedodd unigolyn sy'n byw yn y gwasanaeth wrthym *"dwi wrth fy modd yn gwyllo chwaraeon yma gyda fy ffrindiau, roedd yn wych pan oedd y rygbi ar y teledu"*. Mae pawb sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn edrych ymlaen at ddychwelyd i'r gweithgareddau a'r rhyddid a oedd yn bodoli cyn y pandemig.

Mae lefelau digonol o staff ar waith i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae gan y staff ddigon o amser i'w dreulio gyda'r bobl ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o ddewisiadau a hoffterau unigol.

Mae gan y darparwr bolisiau a gweithdrefnau i reoli'r risg o haint. Mae arferion hylendid da drwyddi draw, mae'r staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir ac yn dilyn canllawiau diweddaraf lechyd Cyhoeddus Cymru.

Yr Amgylchedd

Mae'r unigolyn cyfrifol/rheolwr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cefnogi anghenion y bobl. Mae dwy ystafell ddwbl yn y gwasanaeth, sy'n fwy na'r nifer o ystafelloedd a rennir a ganiateir ar gyfer nifer y lleoedd cofrestredig. Yn ystod yr arolygiad diwethaf, gwnaethom nodi'r canlynol *'rhaid gostwng nifer yr ystafelloedd a rennir pan fydd un o'r preswylwyr yn gadael un o'r ystafelloedd a rennir'*. Dim ond un unigolyn sy'n byw yn un o'r ystafelloedd hyn bellach a bydd yr unigolyn cyfrifol/rheolwr yn ei dadgofrestru fel ystafell ddwbl ac yn ei chofrestru fel ystafell unigol er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cydymffurfio.

Mae addurniadau cartrefol ynghyd â golygfeydd o gefn gwlad lleol yn darparu manau byw llawn golau. Gall y bobl ddefnyddio'r gwahanol ardaloedd cymunol i gymdeithasu â'i gilydd neu i gael amser tawel ar eu pen eu hunain. Mae'r bobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn gartrefol ym mhob rhan o'r cartref. Gall yr unigolion wneud eu hystafelloedd yn fwy personol drwy eu haddurno â'u lluniau, eu paentiadau, eu dodrefn a'u haddurniadau eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o'r lloriau yn y cartref wedi cael eu newid a phrynwyd dodrefn newydd i'r ystafelloedd gwely. Mae materion cynnal a chadw yn cael eu datrys yn brydlon ac mae'r adeilad yn lân ac yn ffres. Mae'r bobl yn mwynhau defnyddio'r gerddi hygyrch, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf.

Caiff archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd eu cwblhau o'r eiddo. Mae'r cartref yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Tân ac mae'r profion ar offer diogelwch tân yn gyfredol. Mae angen diweddarau cynlluniau personol gadael mewn argyfwng a gweithdrefnau profi tymheredd y dŵr. Dywedodd yr uwch staff wrthym y byddant yn mynd i'r afael â hyn a byddwn yn gwirio'r cofnodion hyn yn yr arolygiad nesaf.

Mae gan y gegin sgôr hylendid bwyd o bump. Mae'r bobl yn cymryd rhan yn y broses o gynllunio'r fwydlen ac mae dewisiadau eraill ar gael. Wrth drafod y prydau bwyd dywedodd aelod o staff *"rydyn ni'n gwneud rhai cyfuniadau gwahanol ond dyna mae'r bobl ei eisiau"*. Mae'r bobl yn mwynhau y profiad ciniawa cymdeithasol a dywedodd unigolyn wrthym *"mae'r bwyd yma'n ardderchog ac mae fy chwant am fwyd wedi dod yn ôl ar ôl i mi fod yn yr ysbyty"*.

Mae mesurau COVID-19 ychwanegol ar waith yn unol â chanllawiau cyfredol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gorsafoddi diheintio dwylo ym mhob rhan o'r gwasanaeth ac mae gweithdrefn brofi ar waith ar gyfer pob ymwelydd.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r bobl sy'n ymwneud â'r gwasanaeth yn disgrifio diwylliant cefnogol, teuluol a gwnaethant ddweud wrthym fod yr unigolyn cyfrifol/rheolwr yn hawdd mynd ato ac yn gymwynasgar iawn. Wrth drafod y cymorth rheoli, dywedodd y gweithwyr gofal *"mae'r drws bob amser ar agor"* ac *"mae pob un o'r rheolwyr yn gweithredu'n ymarferol"*. Mae trefniadau ar waith ar gyfer gwaith monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth ac mae'r unigolyn cyfrifol/rheolwr yn siarad â'r bobl a'r staff bob dydd. Mae adroddiadau ymweliad yr unigolyn cyfrifol a gynhelir bob chwarter a'r adolygiad ansawdd gofal a gynhelir bob chwe mis yn defnyddio gwybodaeth gan y bobl, eu teuluoedd a staff y gwasanaeth.

Mae'r staff yn gadarnhaol ynghylch y tîm arwain a'r tîm rheoli a dywedodd gweithiwr gofal wrthym *"dwi'n gallu mynd at unrhyw un o'r uwch staff a gofyn am help"*. Mae'r unigolyn cyfrifol/rheolwr yn gefnogol o'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth. Mae'n rhannu ei amser rhwng gweinyddu, gofalu a dyletswyddau'r unigolyn cyfrifol. Mae'r bobl yn siarad â'r unigolyn cyfrifol/rheolwr, ac yn gwybod sut i wneud cwyn neu leisio pryderon, os oes angen. Dywedodd cynrychiolydd un o'r teuluoedd wrthym *"maen nhw'n bobl hawdd siarad â nhw, yn garedig iawn"* ac *"os ydw i'n gofyn am rywbeth dwi'n cael ateb, neu os ydw i'n gofyn iddyn nhw wneud rhywbeth mae'n cael ei wneud"*

Mae angen diweddarau rhai polisiau a gweithdrefnau, gan gynnwys y polisi cwynion, gweithdrefnau profi tymheredd y dŵr a chynlluniau personol gadael mewn argyfwng. Fodd bynnag, mae gan y staff ddealltwriaeth ddigonol o bolisiau allweddol. Maent yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol. Mae'r staff yn dangos dealltwriaeth dda o ddiogelu. Mae'r staff yn dilyn mesurau priodol ar gyfer atal a rheoli heintiau. Nid yw'r newidiadau i'r gwasanaeth ers yr arolygiad diwethaf wedi'u cofnodi yn y datganiad o ddiben ac rydym wedi nodi hwn fel maes i'w wella. Disgwyliwn i'r unigolyn cyfrifol adolygu'r datganiad o ddiben i adlewyrchu'r newidiadau yn y strwythur rheoli ac i ddadgofrestru ystafell ddwbl yn unol â'r rheoliadau.

Mae gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon, yr hawl i weithio, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol sy'n benodol i'r unigolyn er mwyn diwallu anghenion y bobl a galluogi canlyniadau.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y gallwn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Disgwylwn i'r darparwr gymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
7	Nid yw'r datganiad o ddiben yn gyfredol ac nid yw'n adlewyrchu'r newidiadau yn strwythur rheoli'r gwasanaeth.	Newydd

Dyddiad cyhoeddi 20/06/2022'